

# Tŷ Agored

Rhifyn 1 2021 Y Cylchgrawn ar gyfer **Tenantiaid a Lesddeiliaid y Cyngor**



Mae'r  
Gystadleuaeth  
Arddio  
i Denantiaid  
a Lesddeiliaid  
yn ôl! Gweler  
tudalennau 4-5  
am fanylion.



Cyfeiriad dychwelyd: Dinas a Sir Abertawe, Canolfan  
Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN



Cyngor **Abertawe**  
**Swansea** Council

## ERTHYGLAU

Oes angen help arnoch I fynd ar-lein .....	1
Newid yn yr Hinsawdd .....	2
Llwybrau Beicio .....	3
Cystadleuaeth Arddio 2021 .....	4
Newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau'r Swyddfa Dai Ranbarthol .....	5

## TENANTIAETHAU A STADAU

Llais y Tenantiaid .....	6
Wythnos datgarboneiddio .....	6
Strategaeth Rheoli Stadau Tai 2021-2025 .....	7
Newyddion Tai Lloches .....	8
Y diweddaraf am gartrefi newydd ....	9
Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) - Diweddariad ar Raglen Gyfalaf 2020/2021 .....	10
Dulliau talu rhent .....	12
Gwasanaethau cefnogi .....	13
Mae Cytundebau Tenantiaeth yn newid .....	14
Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored .....	15

## CYNGOR CYFFREDINOL

Yswiriant Cynnwys .....	15
HomeSwapper .....	16
NID FAN HYN! .....	18
Casgliadau Ailgylchu a Sachau Du Ymyl y Ffordd .....	19
Trefnu'ch Ymweliad Â Chanolfan Ailgylchu Llansamlet .....	20

## CYDRADDOLDEB

Allwn ni eich helpu? .....	20
----------------------------	----

**MAE'R HOLL WYBODAETH YNG NGHYLCHGRAWN Tŷ AGORED YN GWIR WRTH FYND I'R WASG.**

# Croeso i Tŷ Agored

Croeso i rifyn diweddaraf ein cylchgrawn i denantiaid a lesddeiliaid.

Rydym wedi cynnwys erthygl ddi-ddorol iawn ar newid yn yr hinsawdd, sy'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn rydyn ni'n ei wneud fel cyngor i helpu i leihau ein hól troed carbon. Darganfyddwch ragor am hyn ar dudalen 2-3.

Rwy'n falch iawn o gyhoeddi y byddwn yn cynnal y gystadleuaeth arddio i denantiaid a lesddeiliaid unwaith eto eleni. Oherwydd y pandemig, nid oeddem wedi gallu cynnal y gystadleuaeth y llynedd, ond bydd yn haws nag erioed i gofrestru ar ei chyfer eleni. Anfonwch lun o'ch gardd atom, rhowch wybod i ni pa gategori rydych yn cofrestru amdano, nodwch rai manylion, a dyna'r cyfan. Rydym yn croesawu pob cais - felly rhowch gynnig arni! Gweler tudalen 4-5 am ragor o fanylion.

Yn dilyn ymgynghoriad, rydym wedi rhoi Strategaeth Rheoli Stadau Tai 2021 - 2025 newydd ar waith. Gweler rhagor o fanylion ar dudalen 7 Mae'r strategaeth yn amlinellu sut caiff gwasanaethau eu datblygu a'u cyflwyno ar eich stadau dros y 4 blynedd nesaf.

Rydym yn gwybod o weld adborth blaenorol eich bod yn mwynhau darllen am ein tai cyngor newydd, felly rydym wedi cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar dudalen 9. Yn ogystal â'n prosiectau adeiladau newydd, mae gwaith arall yn digwydd i ddatblygu adeilad sydd eisoes yn bodoli i fynd i'r afael â digartrefedd.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen Tŷ Agored ond rydym bob amser yn croesawu'ch adborth.

**Rachel Cole**, Golygydd

## Cysylltiadau Defnyddiol

Golygydd - Rachel Cole .....	☎ 635045
Canolfan Gyswllt Atgyweiriadau .....	☎ 635100
Atgyweiriadau Brys y tu allan i Oriau Swyddfa .....	☎ 521500
Uned Cefnogi Cymdogaethau 24 awr .....	☎ 648507
Opsiynau Tai .....	☎ 533100
Canolfan Gyswllt yr Amgylchedd .....	☎ 635600
Ymholiadau Budd-dal Tai .....	☎ 635353

### Swyddfa Dai'r Ardal Ganolog

Bydd yr ARDAL GANOLOG yn cwmpasu ardaloedd tai Townhill a chanol y dref a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Townhill a Chanol y Dre.

✉ [swyddfadai.ardalaganolog@abertawe.gov.uk](mailto:swyddfadai.ardalaganolog@abertawe.gov.uk) ☎ 01792 513900

### Swyddfa Dai Ardal y Dwyrain

Mae ARDAL Y DWYRAIN yn cwmpasu ardaloedd tai Eastside a Threforys a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Treforys.

✉ [swyddfadai.ardalydwyrain@abertawe.gov.uk](mailto:swyddfadai.ardalydwyrain@abertawe.gov.uk) ☎ 01792 601720

### Swyddfa Dai Ardal y Gogledd

Mae ARDAL Y GOGLEDD yn cwmpasu ardaloedd tai Blaen-y-maes a Phen-lan a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Blaen-y-maes.

✉ [swyddfadai.ardalygogledd@abertawe.gov.uk](mailto:swyddfadai.ardalygogledd@abertawe.gov.uk) ☎ 01792 534060

### Swyddfa Dai Ardal y Gorllewin

Mae ARDAL Y GORLLEWIN yn cwmpasu ardaloedd tai Gorseinon, West Cross a Sgeiti a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Hwb Llyfrgell Gorseinon a Swyddfa Dai Sgeiti.

✉ [swyddfadai.ardalygorllewin@abertawe.gov.uk](mailto:swyddfadai.ardalygorllewin@abertawe.gov.uk) ☎ 01792 897700

**Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, disg neu ddull arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai ☎ 01792 635045 neu ewch i'n gwefan**

🌐 [www.abertawe.gov.uk/tai](http://www.abertawe.gov.uk/tai) neu e-bostiwrch

✉ [tai@abertawe.gov.uk](mailto:tai@abertawe.gov.uk)

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

GET  
SWANSEA  
ONLINE



DEWCH  
AR-LEIN  
ABERTAWE



OES ANGEN  
HELP ARNOCH  
I FYND  
AR-LEIN?

## CAEL OFFER DIGIDOL

mae'n bosib eich bod yn  
gymwys i gael cefnogaeth.

## GALLWCH GAEL HELP I:

- Siopa ar-lein
- Cadw mewn cysylltiad ag eraill
- Defnyddio ap 'sgwrsio',  
a llawer mwy.

**Ffoniwch ni ar 01792 637101**  
**(dydd Llun - dydd Gwener 09:30 - 16:30) am gymorth.**

## OES ANGEN GWELLA'CH SGILIAU?

Mae gennym amrywiaeth  
eang o raglenni ar lefelau  
gwahanol i'ch helpu i  
wella'ch sgiliau.

Rhagor o wybodaeth:

[www.abertawe.gov.uk/dewcharleinabertawe](http://www.abertawe.gov.uk/dewcharleinabertawe)

Ebost: [Dysgu.gydoloes@abertawe.gov.uk](mailto:Dysgu.gydoloes@abertawe.gov.uk)

Ffôn: 01792 637101



Cyngor **Abertawe**  
**Swansea** Council

# Newid yn yr Hinsawdd


Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo eisoes yn Abertawe. Dros y blynyddoedd diweddar, mae Abertawe wedi profi llifogydd, stormydd eithafol a thanau gwyllt. Mae hyn yn golygu bod newid yn yr hinsawdd yn broblem leol yn ogystal â phroblem fyd-eang, sy'n cael effeithiau lleol sylweddol yn enwedig i aelodau mwyaf diamddiffyn ein cymuned.

Rhagwelir hafau sychach a chynhesach a gaeafau mwynach a gwlypach gyda digwyddiadau tywydd mwy eithafol. Mae'n bosib y bydd yr Abertawe y bydd ein hwyrion yn cael ei magu ynnddi'n wahanol iawn i'n un ni, ond y newyddion da yw y gallwn weithio gyda'n gilydd i geisio gwneud y dyfodol hwnnw'n un cadarnhaol.

**Ein hargyfwng hinsawdd** Yn 2019, datganodd Cyngor Abertawe argyfwng hinsawdd, a dilynwyd hyn gan gynllun gweithredu i leihau ein hallyriadau sefydliadol, adolygiad polisi i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fel rhan o bopeth y mae'r cyngor yn ei wneud, a chynlluniau ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid a dinasyddion a gweithio gyda nhw i ymdrechu i fod yn Abertawe ddi-garbon net erbyn 2050.

**Siarter Newid yn yr Hinsawdd** Er mwyn arwain drwy esiampl, mae Cyngor Abertawe wedi llofnodi siarter Newid yn yr Hinsawdd sefydliadol. Gwnaed hyn er mwyn i ni allu ategu a chyflymu'r gwaith da a wnaed i leihau ein hallyriadau carbon 55% o lefelau 2010. Gobeithiwn annog ein sefydliadau partner a'r cyhoedd i ymrwymo i Abertawe ddi-garbon net













**Y daith hyd yn hyn...** Mae gennym darged sefydliadol i sicrhau **Cyngor Abertawe Di-garbon net erbyn 2030**. Mae hyn yn golygu lleihau a gorbwyso allyriadau carbon o weithgareddau ac adeiladau'r cyngor. Ond, i wneud gwahaniaeth go iawn, mae angen i bawb ar draws Abertawe gyfan leihau eu hól-troed carbon. Mae angen i bawb gymryd rhan a gwneud newidiadau. Ein huchelgais yw sicrhau **Abertawe Ddi-garbon net erbyn 2050**.



Os ydych yn awyddus i gael rhagor o wybodaeth am sut gallwch fod yn rhan o hyn, ewch i'r ddolen isod i gofrestru'ch diddordeb:

[www.abertawe.gov.uk/newidynyrhinsawdd](http://www.abertawe.gov.uk/newidynyrhinsawdd)

## Cyngor Abertawe Di-garbon Net erbyn 2030 - y daith hyd yn hyn

 <p>Lleihau allyriadau Ymrwymiad Lleihau Carbon 2010 o <b>55%</b> yn 2019/2020</p>	<p>Ymrwymiad y Gronfa Bensiwn i leihau buddsoddiadau mewn tanwydd ffosil o <b>50%</b> dros 4 blynedd</p> 	<p><b>P</b> </p> <p>Gosod <b>12</b> o bwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn meysydd parcio'r cyngor sy'n gwasanaethu <b>32</b> o leoedd parcio</p>	<p>Mae ein trydan i gyd yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy <b>100%</b></p> 
 <p>Mae ein hysgolion a'n chymunedau'n elwa o baneli ynni solar cymunedol <b>580kw</b></p>	<p>Caiff ein tai cyngor newydd eu hadeiladu mewn ffordd hynod ynnï effeithlon yn unol â "Safon Abertawe" gyda storffeydd batri solar a phympiau gwres ffynhonnell aer</p> 	 <p>Mae ein rhwydwaith beicio wedi tyfu <b>25%</b> dros 3 blynedd</p>	<p>Mae ein cerbydlu'n cynnwys <b>40</b> o faniau trydan a char trydan!</p> 
 <p><b>Eco-sgolion</b> - ymunwyr cynnar</p>	<p>Mae Abertawe wedi llwyddo i gyrraedd targed o fodloni lefelau ailgylchu o <b>64%</b> erbyn 19/20</p> 	 <p><b>21,053</b> o oleuadau stryd wedi'u huwchraddio i oleuadau LED allyriadau isel</p>	<p>Ynys Ynni'r Ddraig a Morlyn Llanw Bae Abertawe yn cael eu hyrwyddo</p> 

## Llwybrau Beicio

**Mae llwybrau cerdded a beicio'n cael eu datblygu ledled Abertawe i helpu i wella'r amgylchedd lleol a chadw pobl yn iach.**

Mae Cyngor Abertawe wedi derbyn dros £3 miliwn drwy raglen Teithio Llesol Llywodraeth Cymru sy'n cael ei ddefnyddio i greu nifer o lwybrau defnydd a rennir mewn cymunedau ar draws Abertawe.

Bydd y llwybrau newydd yn cysylltu â llwybrau cerdded a beicio presennol a byddant yn helpu i ehangu'r isadeiledd beicio a cherdded ar draws Abertawe.


Mae'r llwybrau newydd yn cynnwys –

- Llwybr defnydd a rennir 600m newydd ar hyd blaendraeth Abertawe rhwng maes chwarae San Helen a Neuadd y Ddinas.
- Llwybrau oddi ar y ffordd ar hyd Mayals Road a thrwy Glun.
- Cyswllt oddi ar y ffordd 900 metr newydd rhwng yr A48 a'r DVLA i redeg wrth ymyl Clasemont Road, Treforys.
- Llwybr 1.46km newydd yn Townhill (y

Ceunant), a fydd yn cysylltu â Carmarthen Road ac a fydd yn helpu i ddarparu cysylltiadau uniongyrchol â chanol y ddinas.

- Bydd cyswllt oddi ar y ffordd yn Nhreforys, caiff llwybrau sydd eisoes yn bodoli eu gwella a bydd gwell cysylltiadau â'r prif lwybr ar hyd afon Tawe.
- Bwriedir gwella'r cysylltiadau hefyd â Pharc Menter Abertawe trwy greu llwybr 700 metr o hyd ar hyd Jersey Road, a fydd yn helpu i wella cysylltiadau ar gyfer preswylwyr Winsh-wen.

Mae llwybr a rennir 1.4km rhwng Pontybrenin a Thre-gŵyr newydd agor a bwriedir greu llwybr pellach i gysylltu'n uniongyrchol â gorsaf drenau Tre-gŵyr.

Os ydych yn ffansio bod yn fwy heini ac am ddechrau cerdded neu feicio mwy, nawr yw'r amser i roi cynnig arni! Gall gwefan Llwybrau Bae Abertawe eich helpu i gynllunio'ch llwybr  [www.swanseabayways.co.uk](http://www.swanseabayways.co.uk)



# Gystadleuaeth Arddio 2021

## Rydym yn falch o gyhoeddi bod y Gystadleuaeth Arddio i Denantiaid a Lesddeiliaid yn ôl!

**Eleni mae hi ychydig yn wahanol gan yr hoffem i chi anfon ffotograff o'ch gardd atom.**

P'un a ydych yn egin arddwr neu mae gennych fysedd gwyrdd iawn ac yr hoffech ddangos eich sgiliau garddio i ni, anfonwch ffotograff atom sy'n dangos y gwaith caled a'r ymdrech a wnaed gennych. Mae'r gystadleuaeth ar agor i bob tenant a lesddeiliad yn Abertawe, felly p'un a ydych wedi cymryd rhan yn y blynyddoedd blaenorol, neu'n newydd i'r gystadleuaeth, beth am roi cynnig arni?

**Mae gwobrau ariannol o £25-£100 i'w hennill!**

Dyma'r categorïau ar gyfer y gystadleuaeth:

- Yr Ardd Orau (1af, 2il a 3ydd safle)
- Yr Ardd Orau mewn Cyfadeilad Lloches
- Y defnydd gorau o le bach (e.e. balconi, gardd gynhwysyddion, basgedi etc.)
- Yr Ardd Ffordd o Fyw Orau
- Yr Ardd Fwytadwy Orau

### Amodau a Thelerau

- Mae'r gystadleuaeth hon yn agored i denantiaid a lesddeiliaid y cyngor yn Abertawe'n unig.
- Dyfernir 1af, 2il a 3ydd safle i enillwyr categori'r **Ardd Orau**. Gall hyn gynnwys naill ai gardd flaen neu ardd gefn.
- Gall ceisiadau ar gyfer **Yr Ardd Fwytadwy** fod mewn cynwysyddion neu fel rhan o ardd (dan do neu yn yr awyr agored).
- Mae'n rhaid i '**Ardd Ffordd o Fyw**' ddangos ôl gofal da ond efallai na fydd yn cael ei hystyried yn ardd 'draddodiadol' neu 'ffurfiol' gydag amrywiaeth mawr o flodau a phlanhigion. Mae angen i'r ardd wneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael i fod yn addas ar gyfer ffordd o fyw'r teulu.
- Mae categori '**Y defnydd gorau o le bach**' yn cyfeirio at ardal na ellir ei hystyried yn ardd, h.y. balconi neu le bach y tu allan i fflat.
- Gallwch anfon un ffotograff neu sawl un, ond caiff y gystadleuaeth ei beirniadu ar eich sgiliau garddio ac nid eich sgiliau ffotograffig.
- Dylai'r ffotograffau ddangos lluniau o'ch gardd

yn unig ac ni ddylent ddangos gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyfeiriad neu ddangos pwyl ydych chi neu aelodau o'ch teulu.

- Os na allwch gyflwyno llun eich hun, gallwch ofyn i berson arall wneud hynny ar eich rhan. Mae'n rhaid i'r person sy'n cyflwyno'r llun ddarparu manylion y person sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth.
- Nodwch yn glir y categori rydych yn cymryd rhan ynddo. Gallwch gymryd rhan mewn mwy nag un os dymunwch.
- Ni allwn ddychwelyd unrhyw ffotograffau a dderbyniwn drwy'r post.
- Drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth ac anfon eich ffotograff atom, rydych yn rhoi eich caniatâd i ni ddefnyddio'r llun ar ein gwefan, ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol ac mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol. Byddwn yn cadw'r llun am gyfnod o 2 flynedd ar ôl i'r gystadleuaeth gau.
- Caiff pob cynnig ei wirio a'i ddilysu pan fydd y gystadleuaeth yn cau.

## Sut i gymryd rhan

Mae'n haws nag erioed i chi gymryd rhan - Gallwch e-bostio ffotograff o'ch gardd i ✉ [Tai@abertawe.gov.uk](mailto:Tai@abertawe.gov.uk) neu lenwi'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan 📄 [www.abertawe.gov.uk/cystadleuaetharddioideniaid](http://www.abertawe.gov.uk/cystadleuaetharddioideniaid)

Dylech gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, y categori rydych yn cymryd rhan ynddo a'ch rhif ffôn.

Fel arall, gallwch bostio'ch ffotograff i: Cystadleuaeth Arddio i Denantiaid a Lesddeiliaid, Cyngor Abertawe, Gwasanaethau Tai, Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road SA1 3SN.

**Y dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth yw dydd Gwener 20 Awst 2021. Edrychwn ymlaen at weld eich gerddi!**



# Newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau'r Swyddfa Dai Ranbarthol

**Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn edrych ar sut y gall foderneiddio a gwella'r ffordd rydym yn darparu'n gwasanaethau i chi.**

**Pa newidiadau rydym ni'n eu gwneud?**

Byddwn yn:

Aildrefnu'r gwasanaeth Swyddfa Dai Ranbarthol fel y bydd staff yn gweithio o 4 ardal sy'n cwmpasu rhannau yng Ngogledd, Gorllewin, Dwyrain a Chanol y ddinas.

Bydd staff yn darparu gwasanaethau ar gyfer:

- Ardal y Gogledd sy'n cwmpasu stoc tai Blaen-y-maes/Pen-lan o SDR Blaen-y-maes.
- Ardal y Gorllewin sy'n cwmpasu stoc tai Sgeti/West Cross/Gorseinon o SDR Sgeti a SDR Gorseinon sydd wedi symud i'r llyfrgell gyfagos yn West Street.
- Ardal y Dwyrain sy'n cwmpasu stoc tai Treforys/Eastside o SDR Treforys.
- Bydd yr ardal Ganolog yn cwmpasu stoc tai Townhill/Canol y Dref o STRh Townhill a Chanol y Dref.

Bydd y newidiadau hyn yn ein helpu i wella gwasanaethau ac:

- Ymgymryd â mwy o ymweliadau ag ystadau a chartrefi a chynnal cymorthfeydd cyngor ar dai a rhent mewn adeiladau cymunedol i'r rheini nad ydynt efallai'n gallu teithio i'r swyddfa dai agosaf.
- Uwchraddio'n system ffonau fel y gallwch gysylltu â'ch swyddogion cymdogaeth yn uniongyrchol ar eu rhifau ffôn unigol yn ogystal â'r ffordd arferol o ffonio prif rifau'r swyddfa os oes angen.
- Gwella'n gwasanaethau ar-lein ar gyfer talu'ch rhent, adrodd am atgyweiriadau etc.

Ar adeg argraffu hwn, mae cyfyngiadau COVID ar waith. Fodd bynnag, bydd ein swyddfeydd tai yn ailagor i'r cyhoedd pan fydd y cyfyngiadau'n llacio. Yn y cyfamser, hoffem eich sicrhau bod staff yr is-adran tai yn parhau i gyflwyno gwasanaethau a gallwch gysylltu â nhw drwy'r swyddfeydd tai lleol.

📄 [www.swansea.gov.uk/NOmap](http://www.swansea.gov.uk/NOmap)

📄 [www.abertawe.gov.uk/tai-cysylltu](http://www.abertawe.gov.uk/tai-cysylltu)

Byddwn yn ysgrifennu atoch yn agosach at yr amser gyda rhagor o wybodaeth am le y byddwn yn cynnal y cymorthfeydd rhent a thai a newidiadau i wasanaethau ar-lein.

# Llais y Tenantiaid



## Fy enw i yw Alison Winter a fi yw eich Swyddog Cyfranogiad.

Mewn rhifynnau Tŷ Agored blaenorol, rwyf wedi defnyddio'r dudalen hon i roi'r diweddaraf i chi ar yr hyn y mae grwpiau cymdogaethau lleol a grwpiau ledled y ddinas a'r sir wedi bod yn ei drafod.

Er nad ydym wedi gallu cwrdd wyneb yn wyneb dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi mwynhau siarad â llawer ohonoch dros y ffôn i gael sgwrs a chlywed y newyddion diweddaraf.



## Gallwch gymryd rhan o hyd, a chael cyfle i ddweud eich dweud a chadw mewn cysylltiad



Yn ogystal â chysylltu â mi dros y ffôn, gallwch anfon neges destun ataf ar ☎ **07775221453**, gallwch gysylltu â mi drwy 'Messenger' neu gallwch fy e-bostio ✉ **alison.winter@abertawe.gov.uk**

Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd ar-lein drwy alwadau grŵp dros Microsoft Teams. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan, anfonwch eich enw, eich cyfeiriad a'ch cyfeiriad e-bost ataf. Bydd cefnogaeth lawn ar gael i'ch helpu i osod hyn ar eich dyfais neu'ch ffôn symudol, a chedwir eich manylion yn ddiogel ar bob adeg.

## Wythnos datgarboneiddio

Cynhaliodd TPAs Cymru wythnos ar thema carbon isel yn ddiweddar i denantiaid a staff tai ledled Cymru. Tynnodd sylw at ffyrdd blaengar o wneud gwahaniaeth ym maes tai ac yn ein cymunedau i'w gwneud yn fwy cynaliadwy a llesol i'r amgylchedd. Mae llawer o brosiectau cyffrous yn digwydd a fydd yn newid sut rydym yn byw yn ein cartrefi a'n cymunedau yn y dyfodol.

Er enghraifft, mae cyfleuster cymunedol lle gallwch fenthycu eitemau cartref pob dydd am bris isel yn cael ei sefydlu yn Abertawe. Y syniad yw yn lle prynu eitemau drud rydych braid byth yn eu defnyddio, fel peiriant golchi pŵer neu ddril, y gallwch eu benthycu. Bydd y cyfleuster hwn yn cael ei gyfuno â chaffi atgyweirio y gallwch fynd ag eitemau cartref diffygiol iddo a bydd gwirfoddolwyr profiadol yn ceisio'u hatgyweirio i chi, fel bod llai o eitemau'n cael eu taflu. Mae Benthyc Cymru, Repair Café Wales a Chyngor Abertawe yn gweithio gyda'i gilydd i wneud i hyn ddigwydd a bydd yn un o'r cyntaf yng Nghymru!



## Facebook



Mae gan Dai Cyngor Abertawe ei grŵp Facebook ei hun, y gall unrhyw denant neu lesddeiliad y cyngor ymuno ag e'. Rydym yn postio gwybodaeth ddefnyddiol, yn eich cyngori ar ddiweddariadau a newidiadau i wasanaethau tai ac wrth gwrs yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau yr hoffech eu cynnwys, cysylltwch â mi.

Os hoffech ymuno, chwiliwch am 'Tai Cyngor Abertawe' ar Facebook, gwnewch gais i ymuno a gofynnir y cwestiynau canlynol chi: 1. Enw'r tenant arweiniol, 2. Cyfeiriad 3. Dewis iaith. **Dim ond os atebwch chi'r cwestiynau hyn y caiff eich cais ei gymeradwyo.**

# Strategaeth Rheoli Stadau Tai 2021-2025

## Adolygwyd y Strategaeth Rheoli Stadau Tai yn ddiweddar yn dilyn ymgynghoriad â Phanel Gofalwyr a Rheoli Stadau'r tenantiaid.

Mae'r strategaeth ddiweddaedig hon yn nodi sut bydd gwasanaethau rheoli stadau'n cael eu datblygu a'u cyflwyno ar stadau tai Cyngor Abertawe dros y 4 blynedd nesaf.

Nod Strategaeth Rheoli Stadau Tai Abertawe yw **"sichrau bod stadau tai'r cyngor yn ddiogel ac yn lân, a chanddynt le i blant chwarae, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn a lle nad yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei oddef"**.

Byddwn yn ceisio gwneud hyn drwy:

- Sichrau bod stadau tai cyngor yn cael eu cadw'n rhydd o sbwriel a thipio anghyfreithlon, gyda manau agored yn cael eu cynnal.
- Sichrau bod stadau tai cyngor yn amgylcheddau diogel gyda chyfleoedd i blant chwarae, sydd o fudd penodol i denantiaid a phreswylwyr ac sy'n perthyn iddynt.
- Sichrau yr ymdrinnir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn brydlon ac yn effeithiol, er mwyn lleihau'r effaith ar unigolion a'r gymuned ehangach.

Penderfynwyd ar flaenoriaethau yn dilyn trafodaethau â'r adran Tai ac aelodau staff eraill y cyngor a chyda thenantiaid. Gellir crynhoi'r blaenoriaethau hyn fel a ganlyn:

**Gwelliannau amgylcheddol** – mae'r rhain yn cynnwys strydoedd glanach, plannu rhagor o blanhigion, tirlunio meddalach, prosiectau adfywio.

**Datblygu cymunedau** – mae'r rhain yn cynnwys manau cwrdd cymunedol, cyfleoedd chwarae ffurfiol ac anffurfiol, annog cymunedau i ymddiddori mewn gwelliannau amgylcheddol ehangach.

**Ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i leihau** – mae hyn yn cynnwys ymateb yn brydlon i achosion o dipio anghyfreithlon, gweithio gyda phartneriaid i leihau effaith defnyddio cyffuriau ar gymunedau, lleihau niwsans gemau pêl drwy gynig cyfleoedd chwarae.

Mae'r Strategaeth Rheoli Stadau Tai lawn ar gael yma  [www.abertawe.gov.uk/tenantiaidcyngor](http://www.abertawe.gov.uk/tenantiaidcyngor)

Byddwn yn cynnwys y newyddion diweddaraf am sut rydym yn gweithio tuag at gyflawni'r amcanion hyn mewn rhifynnau Tŷ Agored dilynol.

Os hoffech gymryd rhan a chynrychioli'ch ardal leol drwy ymuno â'r Panel Gofalwyr a Rheoli Stadau, cysylltwch ag Alison Winter

 **01792 635043 / 07775221453**

 **alison.winter@abertawe.gov.uk**

# Newyddion Tai Lloches

Mae wedi bod yn 6 mis prysur a phleserus i Llinos Price sydd wedi cymryd lle Diane Thomas fel y Rheolwr Tai Lloches. Mae Llinos wedi bod yn gweithio yn yr adran Tai ers nifer o flynyddoedd a hi oedd Rheolwr Swyddfeydd Tai Rhanbarthol Eastside a Threforys cyn cymryd lle Diane.

## Cystadleuaeth Ffenestr Nadolig Cyfadeiladau Lloches

Yn ystod mis Rhagfyr cymerodd preswylwyr ein cyfadeiladau lloches ran mewn cystadleuaeth Ffenestr Nadolig. Roedd safon y ceisiadau'n uchel iawn a diolch yn fawr i'n holl breswylwyr a gymerodd ran. Heol y Gors enillodd y wobwr am y Cyfadeilad Cyffredinol Gorau a phreswilydd o Faes yr Haf enillodd y Cais Unigol Gorau.

Dywedodd preswylwyr Heol y Gors, "Roeddem am i bawb fwynhau'r Nadolig a bywiogi ein cyfadeilad, mae wedi bod yn flwyddyn anodd ac roeddem wrth ein boddau bod cymaint o bobl wedi mwynhau ein haddurniadau. Diolch, roedd ennill yn sioc fawr i ni."

### Llongyfarchiadau i'n holl enillwyr!



Mae preswylwyr Heol y Gors wedi derbyn cynwysyddion plannu llysiau newydd fel rhan o gynllun Gwelliannau Tai. Hyd yn hyn maent wedi plannu tomatos, ffa, moron, pannas, cennin, winwns, blodfresych, bresych a letys ac maent wrth eu boddau'n eu gwyllo'n tyfu! Bydd y cyfadeiladau lloches eraill hefyd yn derbyn dysglau plannu fel rhan o'r un cynllun.



I orffen, hoffem ddweud diolch mawr i holl breswylwyr ein cyfadeiladau lloches am weithio gyda ni wrth i gyfyngiadau COVID barhau i fod ar waith ac am ein helpu i sicrhau bod cyfadeiladau'n parhau i fod yn lleoedd diogel i bawb.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Gwasanaeth Lloches, e-bostiwch

✉ [tai@abertawe.gov.uk](mailto:tai@abertawe.gov.uk) neu ffoniwch eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol

# Y diweddaraaf am gartrefi newydd

Yn rhifyn diwethaf Tŷ Agored dywedom wrthyfych am y tai cyngor newydd sy'n cael eu hadeiladu yn Abertawe. Mae'r erthygl hon yn rhoi diweddariad i chi ar y datblygiadau.



Mae cam 2 datblygiad Colliers Way bellach wedi'i gwblhau. Mae'r safle'n cynnwys 8 fflat un ystafell wely, 4 tŷ â dwy ystafell wely, 4 tŷ â thair ystafell wely a 2 dŷ â phedair ystafell wely. Fe'u datblygwyd fel rhan o'r Rhaglen Tai Arloesol a'u dylunio fel gorsafoedd pŵer bach ac fe'u gelwir yn Gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (HAPS). Maent yn cynnwys technolegau adnewyddadwy arloesol fel paneli solar ar y to sy'n cynhyrchu trydan a batris sy'n storio hyn i'w ddefnyddio gan y deiliaid. Mae hyn yn helpu'r deiliad i ddefnyddio cyn lleied â phosib o ynni; gan sicrhau bod biliau ynni mor isel â phosib.

## Hill View Crescent/Beacons View Road

Mae gwaith adeiladu'n mynd rhagddo yn y Clâs, Treforys. Mae 25 o gartrefi ynni effeithlon yn cael eu hadeiladu yn Hill View Crescent a Beacons View Road. Bydd cynllun y tai 3 ystafell wely'n cynnwys technoleg adnewyddadwy. Fel Colliers Way Cam 2, bydd y cartrefi'n cynhyrchu ac yn storio eu hynni eu hunain, gan olygu biliau ynni is i'r preswylwyr.

Mae adeilad newydd yn cael ei adeiladu hefyd ar gyfer YGG Tan-y-Lan ar y tir gerllaw.

Caiff y cartrefi eu cwblhau erbyn dechrau 2022.

## Tŷ Bryn a Phodiau Preswyl

Yn ogystal â phrosiectau i godi tai newydd, mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar ddatblygu hen ganolfan Addysg Gymunedol Tŷ Bryn yn Uplands i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd. Unwaith y caiff ei gwblhau, bydd yr adeilad yn darparu pedair fflat un ystafell wely.

Yn ogystal, mae'r cyngor wedi prynu podiau preswyl, y cyntaf o'u bath yn Abertawe. Fflatiau hunangynhwysol un ystafell wely yw'r podiau hyn ac maent yn hynod ynni effeithlon. Daethpwyd â nhw i'r safle ar graen a'u gosod yn eu lle yn barod i bobl fyw ynddynt. Mae'r podiau wedi'u hadeiladu i safon Passivhaus gyda'r galw lleiaf posib ar ynni er mwyn helpu i gadw costau ynni'n isel.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer y cynllun fel rhan o'i wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai a digartrefedd. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau yn yr hydref.



# Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) - Diweddariad ar Raglen Gyfalaf 2020/2021

Mae gwaith yn parhau i wella cartrefi a stadau hyd at Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), ond bu oedi i nifer o gynlluniau oherwydd yr ymateb i argyfwng COVID-19. Mae'r cyngor yn gweithio'n galed i sicrhau bod gwaith gwella'n cael ei aildrefnu a'i gwblhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cwblhau gwaith SATC tan ddiwedd mis Rhagfyr 2021.

## Gwaith a wneir eleni

Mae nifer o gynlluniau ceginau ac ystafelloedd ymolchi yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn ardaloedd Sgeti, West Cross, Gŵyr a chanol y dref.

Mae cynlluniau diddosi rhag y gwynt a thywydd garw (h.y. lle mae waliau'n cael eu hatgyweirio/hinswleiddio a thoeon yn cael eu hadnewyddu) yn mynd rhagddynt yn Waunarlwydd, West Cross, Blaen-y-maes, Fforesthall, Talcopa, Gŵyr (gan gynnwys Llanrhidian a fflatiau Malthall).

Mae cynlluniau newydd ar fin cychwyn ym Mhentrechwyth, Penyrheol, y Clâs a Sgeti a bydd rhagor o waith diddosi rhag y gwynt a thywydd garw hefyd yn dechrau ar fflatiau Jones Terrace, Evans Terrace a Wilks Row yng nghanol y dref a Glandŵr.



Yn ogystal, bydd cynllun inswleiddio waliau allanol yn dechrau yn Pantycelyn Road a Taliesyn Road yn Townhill. Bwriedir cychwyn cynllun hefyd ar gyfer y math hwn o waith yng Ngarnswllt a bydd y prosiect hwn hefyd yn edrych ar wresogi amgen ac ynni adnewyddadwy fel paneli solar, storffeydd batri ar gyfer trydan a gwresogi o'r ddaear neu'r aer gan nad yw'r ardal hon ar y grid nwy.



Mae gwaith ar systemau mynediad llais i fflatiau yn cael ei gwblhau ym Mlaen-y-maes, Winsh-wen, Pen-lan a Sgeti. Bydd cynllun newydd yn dechrau yn Port Tennant Road a Rheidol Court yn 2021 i newid y prif ddrysau mynediad ac adnewyddu'r weirio a'r system intercom i fflatiau.

Mae gwaith profi trydanol yn mynd rhagddo ar draws nifer o ardaloedd yn Abertawe. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ailweirio, archwilio/newid larymau mwg a chyfarpar diogelwch.

Bydd cynlluniau i ddymchwel simneiau yn dechrau yn Townhill, Mayhill, Pen-lan a Blaen-y-maes. Caiff simneiau nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach eu dymchwel a bydd angen mynediad i bob eiddo er mwyn ynysu'r nwy wrth ddymchwel y simnai.

## Cynllun Cyfleusterau Allanol

Mae'r gwelliannau hyn yn canolbwyntio ar ran allanol yr eiddo er mwyn mynd i'r afael â materion hygrychedd a diogelwch.

Bydd y gwaith a wneir yn amrywio o eiddo i eiddo, gan ddibynnu ar yr hyn y mae angen ei wneud, a bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Waliau terfyn, ffensys a pherthi terfyn
- Palmentydd, rampiau a grisiau
- Canllawiau ac amddiffyniadau rhwng lefelau
- Darparu ardaloedd sychu
- Waliau Cynnal
- Gatiau ochr a blaen
- Draenau a gyliau dŵr wyneb

Ni fydd ffensys, llwybrau, waliau, patios neu unrhyw dirlunio caled sydd yno eisoes yn cael eu hadnewyddu, fodd bynnag, gwneir atgyweiriadau iddynt os ydynt mewn cyflwr gwael.

Mae gwaith allanol yn cael ei wneud ar hyn o bryd ym Mhen-lan, Sgeti a Glandŵr.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn parhau drwy gydol 2021 mewn ardaloedd eraill yn Abertawe gan gynnwys Casllwchwr, Blaen-y-maes a West Cross.

## Cynnydd hyd yn hyn

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r cyngor roi'r diweddaraf i Lywodraeth Cymru ar ei gynnydd wrth

gyflawni'r safon. Mae hyn yn cynnwys pa waith sydd wedi'i wneud ynghyd ag unrhyw waith na all y cyngor ei gwblhau, y cyfeirir ato fel 'methiant derbynol'. Mae enghreifftiau'n cynnwys achosion lle nad yw'n bosib gwneud gwaith oherwydd bod y tenant yn sâl neu nid oes modd cael mynediad i'r eiddo neu am fod y tenant eisoes wedi gwneud ei welliannau ei hun.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwaith a gwblhawyd hyd at fis Mawrth 2020.

Elfen SATC	Eiddo sy'n cydymffurfio'n llwyr	% yr eiddo sy'n cydymffurfio'n llwyr
Toeau	13,246	98%
Ffenestri	13,523	100%
Drysau	13,524	100%
Ceginau	11,521	85%
Ystafelloedd ymolchi	10,375	77%
Systemau gwresogi	11,325	84%
Sgôr ynni	13,468	99%
Systemau trydanol	13,439	99%
Larymau Mwg	13,511	100%
Gerddi	8,820	65%

## Cefnogi'r gymuned

Mae'r contractwyr a gyflogir gan y cyngor i gyflawni'r cynlluniau gwella mawr hyn yn fanteisiol i ardal Abertawe. Mae'r contractwyr yn gweithio gyda'r cyngor i helpu'r rheini sy'n ddi-waith i ddychwelyd i'r gweithle ac ennill sgiliau newydd neu ddiweddarau eu sgiliau.

## Hoffech chi gael rhagor o wybodaeth?

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am atgyweiriadau a gwelliannau sylweddol a gynlluniwyd ar gyfer eich cartref, neu os hoffech gael eich cynnwys mewn cynllun atgyweirio na chawsoch gyfle i fod yn rhan ohono'r tro cyntaf, gallwch gysylltu â'ch swyddfa dai ranbarthol am fanylion.

# Dulliau talu rhent



Mae ffurflenni ar gael ar-lein neu gallwch ofyn i'ch Swyddog Rhent amdanynt drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** neu e-bostio ✉ [rhenti@abertawe.gov.uk](mailto:rhenti@abertawe.gov.uk)



**Bydd angen cerdyn talu electronig arnoch**, gofynnwch i'ch Swyddog Rhent, neu ffoniwch ni ar ☎ **601720 / 534094**. Ni fydd taliadau a wneir ar ddydd Iau neu ddydd Gwener yn dangos tan yr wythnos ganlynol



**Payzone** - Gallwch ddefnyddio cerdyn electronig i dalu mewn unrhyw siop sy'n dangos logo payzone. Am restr o'r siopau hyn, ewch i 🌐 [www.payzone.co.uk](http://www.payzone.co.uk)

**Drwy gysylltu  
â'ch Swyddog  
Rhent**

Gallwch dalu drwy ddefnyddio cerdyn debyd, Switch, Solo, Maestro neu gredyd drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** neu eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol yn ystod oriau swyddfa

**Dros y rhyngrwyd**



Ewch i wefan y Cyngor yn 🌐 [www.abertawe.gov.uk](http://www.abertawe.gov.uk) a chliciwch ar "**Gwnewch e ar-lein**" a "**Talu**". Os cewch unrhyw anawsterau, ffoniwch ☎ **601720 / 534094** am gymorth

**Dros y ffôn**



Os ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, gallwch ffonio ein gwasanaeth awtomataidd **Cymraeg** ☎ **0300 456 2775 / Saesneg** ☎ **0300 456 2765** ar unrhyw adeg. (Os nad ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, ffoniwch ☎ **601720 / 534094**)



Os ydych chi'n derbyn **Credyd Cynhwysol**, caiff eich **Costau Tai** eu talu i chi'n uniongyrchol gan yr **Yr Adran Gwaith a Phensiynau**. Ffoniwch yr **Yr Adran Gwaith a Phensiynau** ar ☎ **0345 600 0723** os nad ydych wedi derbyn eich costau tai

# Gwasanaethau cefnogi

I gyflwyno cais newydd am Fudd-dal Tai, ffoniwch y

**Tim Hawlio** ar ☎ **635353** neu e-bostiwch

✉ **caisnewyddamfudd-daliadau@abertawe.gov.uk**

## Budd-dal Tai

Er mwyn trafod eich hawliad â Swyddog Budd-dal Tai,

ffoniwch ☎ **635353** neu e-bostiwch

✉ **budd-daliadau@abertawe.gov.uk**

## Tim Rhenti

Os ydych chi'n cael anhawster wrth dalu'ch rhent, cysylltwch

â'r **Tim Rhenti** drwy ffonio ☎ **01792 534064** neu

**07920 560243** ✉ **rhenti@abertawe.gov.uk**

## UCT - Uned Cefnogi Tenantiaid

Dinas a Sir Abertawe sy'n rheoli'r **UCT**, a all gynnig gweithiwr cefnogi i helpu gyda phroblemau ariannol neu unrhyw faterion cefnogi eraill gyda'ch tenantiaeth.

Ffoniwch eich Swyddog Rhent neu'r **Uned Cefnogi Tenantiaid** ar ☎ **774360** os teimlwch fod angen cefnogaeth arnoch

## Opsiynau Tai

Cyngor ar arian a dyledion - hefyd, rhoddir cyngor am ddim os yw'ch tenantiaeth mewn perygl.

☎ **01792 533100** ✉ **opsiynautai@abertawe.gov.uk**



## Cyngor ar Bopeth Abertawe

Ail Lawr, City Gates, 50a Stryd y Gwynt, Abertawe SA1 1EE

☎ **0300 3309 082** 🌐 **www.adviceguide.org.uk/wales.htm**



Os ydych wedi'ch bygwth â digartrefedd, cynigir cyngor

a chymorth i chi am ddim ☎ **01792 469400**

Llinell Gymorth Cyngor ar Dai ☎ **08000 495 495**

🌐 **www.sheltercymru.org.uk/?lang=cy**



Cyngor ar ddyledion gan Stepchange ☎ **0800 138 1111**

🌐 **www.stepchange.org**



I gael cyngor ar sut i ddechrau mewn gwaith

☎ **01792 637112** 🌐 **www.workways.wales**

✉ **workways+@swansea.gov.uk**

# Mae eich Cytundeb Tenantiaeth yn newid...



Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn gwneud rhentu cartref yn symlach ac yn haws i denantiaid yng Nghymru. Daeth y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) i rym ym mis Ionawr 2016, ac ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n gweithio ar y canllawiau a'r rheoliadau y bydd gofyn i holl landlordiaid Cymru, gan gynnwys y cyngor, eu rhoi ar waith. Hyd yn hyn, nid oes dyddiad pendant o ran pryd caiff y Ddeddf ei rhoi ar waith yn llawn ond disgwylir i hyn digwydd yn ystod 2022. Bydd y cyngor yn rhoi'r holl wybodaeth i denantiaid pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru.

## Beth mae'r Ddeddf Rhentu Cartrefi yn ei olygu i denantiaid?

### Daw tenantiaid yn ddeiliaid contract.

Yn lle cytundebau tenantiaeth, bydd 'contractau meddiannaeth' - a fydd yn cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru. Pan ddaw'r ddeddf i rym, bydd contractau meddiannaeth yn disodli'r holl gytundebau tenantiaeth presennol yn awtomatig. Bydd gan holl denantiaid y cyngor a thenantiaid y Gymdeithas Dai gontractau diogel.

Pan gaiff Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) ei rhoi ar waith, rhoddir contract meddiannaeth newydd i denantiaid. Bydd dau fath o gontract:

- Contract diogel, wedi'i fodelu ar denantiaeth

ddiogel Awdurdod Lleol a gaiff ei ddefnyddio gan y cyngor a Chymdeithasau Tai

- Contract safonol a fydd yn gweithredu yn y sector rhentu preifat

### Ni chaiff eich hawliau tenantiaeth presennol eu lleihau – ond bydd ambell newid a fydd yn gwella pethau i chi, fel:

- *Newidiadau i denantiaethau ar y cyd:* Os bydd un o'r tenantiaid mewn tenantiaeth ar y cyd yn gadael, ni fydd y denantiaeth yn dod i ben mwyach
- *Hawliau olynu:* Bydd hawl olynu ychwanegol a bydd y Ddeddf newydd hefyd yn rhoi hawl olynu i ofalwyr preswyl (o'r blaen, dim ond aelodau o'r teulu oedd â'r hawl i etifeddu tenantiaeth ddiogel).

## Problemau dyled? Gwasgwch ar y botwm.

Mae mynd i'r afael â'ch dyled yn haws nag a feddylwch.

Bydd y Botwm Panig Dyled yn eich helpu i ymdopi a chael cymorth priodol am ddim.

[www.debtpanicswansea.org.uk](http://www.debtpanicswansea.org.uk)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government





# Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored

Oes gennych unrhyw sylwadau am y rhifyn hwn o gylchgrawn Tŷ Agored neu am unrhyw un o'r erthyglau yr ydych wedi'u darllen?

Os felly, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Gwasanaethau Tai, Dinas a Sir Abertawe, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN, Rhadbost RSCT-JJZH-KLJZ neu e-bostiwrch ✉ [tai@abertawe.gov.uk](mailto:tai@abertawe.gov.uk) neu ffoniwch ☎ **01792 635045**

**Diolch am eich amser.** Rhowch wybod i ni a ydych yn hapus i ni gyhoeddi eich sylwadau yng nghylchgrawn Tŷ Agored.

## WE BELIEVE IN FREE PERIODS!

Let us know if you need pads/  
tampons or would like to try a  
reusable option like a menstrual  
cup or washable pads.

[bit.ly/GetStoppProducts](https://bit.ly/GetStoppProducts)



[stopp.campaign@gmail.com](mailto:stopp.campaign@gmail.com)  
[fb.com/SwanseaTakesOnPeriodPoverty](https://fb.com/SwanseaTakesOnPeriodPoverty)  
Twitter @SwansPeriodPov  
[instagram.com/stoppcampaign](https://instagram.com/stoppcampaign)

# Yswiriant Cynnwys

**Mae eich cartref yn cynnwys peth o'ch eiddo mwyaf gwerthfawr. Fodd bynnag, pe bai eich eiddo'n cael ei ddifrodi mewn digwyddiad fel tân neu lifogydd, a allech chi fforddio eitemau newydd yn eu lle?**

Er y byddai'r cyngor yn gwneud atgyweiriadau i'ch eiddo, nid ydym yn yswirio cynnwys eich cartref. Os achosir difrod i'ch eiddo oherwydd tân, lladrad, fandaliaeth neu lifogydd, NI fyddwch wedi'ch yswirio ONI BAI eich bod wedi talu am yswiriant cynnwys.

Mae cael yswiriant cynnwys yn rhoi tawelwch meddwl i chi felly os ydych mewn sefyllfa lle rydych yn colli rhywbeth sy'n bwysig i chi, byddwch wedi'ch yswirio.

Mae nifer o gwmnïau yswiriant sy'n gallu darparu yswiriant i chi, ond gwiriwch fanylion y polisi i sicrhau bod gennych yr yswiriant cywir ar gyfer eich anghenion. Gall gwefannau cymharu prisiau hefyd eich helpu i wirio bod gennych y dyfynbris gorau.

# Eisiau symud cartref?

## Gall HomeSwapper eich helpu!

HomeSwapper yw gwasanaeth cyfnewid cartref mwyaf y DU ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol a gall cyfnewid eich cartref â thenant arall fod yn gyflymach nag aros am drosglwyddiad.

Mae Cyngor Abertawe'n aelod o HomeSwapper a gall tenantiaid Cyngor Abertawe gofrestru ar gyfer y gwasanaeth a'i ddefnyddio yn rhad ac am ddim.

Gallwch gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif yn [www.homeswapper.co.uk](http://www.homeswapper.co.uk) neu gallwch ddefnyddio **ap rhad ac am ddim HomeSwapper** ar eich ffôn neu eich tabled - lawrlwythwch yr ap o'r Apple App Store neu Google Play ar eich ffôn neu eich tabled.



HomeSwapper Matches

Housing Partners Limited · Social

★★★★☆ 429

Parental guidance

Contains Ads

Add to Wishlist

Install

P'un ai a ydych chi'n newydd i HomeSwapper neu rydych yn ei ddefnyddio'n barod, mae'n werth **adolygu'ch hysbyseb** i sicrhau eich bod yn gwneud yn fawr o HomeSwapper ac yn rhoi'r **cyfle gorau i chi gael cyfnewid cartref** - dyma restr wirio:

**1.** Sicrhewch fod gennych luniau diweddar o'ch tŷ sydd o safon dda yn eich hysbyseb - roedd gan y rhan fwyaf o gyfnewidiadau llwyddiannus o leiaf un llun o'r cartref. Ceisiwch ddangos eich cartref ar ei orau - does neb am weld llun agos o lestri brwnt yn y sinc neu ddelwedd aneglur o'r ffens. Ceisiwch dynnu eich lluniau pan fydd y tywydd yn braf ac yn heulog fel eu bod yn edrych yn well. Os ydych chi'n bryderus y bydd eich cartref yn cael ei adnabod, tynnwch luniau o'r tu allan neu'r ardd yn unig. Ceisiwch gynnwys cymaint ag y gallwch yn y llun.



**2.** Mae lanlwytho'ch lluniau ar eich hysbyseb yn hawdd - mae'n haws os ydych chi wedi arbed eich lluniau ar y ddyfais (ffôn, tabled neu gyfrifiadur) rydych chi'n ei defnyddio i fewngofnodi i'ch cyfrif. Mewngofnodwch i'ch cyfrif a chliciwch ar 'My Details', yna dilynwch y camau hawdd. Gallwch ychwanegu at eich lluniau ar eich hysbyseb neu eu haddasu, yn union fel mae gwneud ar Facebook etc. Gallwch roi disgrifiad o'r hyn sydd yn y llun ar gyfer pob un.

3. Sicrhewch fod y disgrifiad o'ch cartref yn fanwl, gyda chymaint o wybodaeth â phosib am ei nodweddion.

4. Rhowch gyngor ymarferol - er enghraifft, yn fras, faint yw biliau'r tŷ bob mis, a oes unrhyw gyfyngiadau o ran cadw anifeiliaid yn y tŷ, cyfrifoldebau'r landlord.

5. Cofiwch gynnwys adolygiad o'r ardal leol a'i buddion.

6. Byddwch yn realistig ac mor onest â phosib.

7. Wrth ystyried yr **hyn rydych yn ei chwilio amdano**, gall fod yn ddefnyddiol llunio rhestr flaenoriaeth o'r hyn sydd wir ei angen arnoch neu'r hyn yr hoffech ei gael ond nid yw mor bwysig. Os oes gennych feysydd cyfyngedig a nodweddion pendantefallai y byddwch yn cael eich paru gydag ychydig o gartrefi'n unig. Drwy beidio â'ch cyfyngu eich hun yn ormodol o ran y lleoedd a'r nodweddion, dylech gael mwy o gartrefi posibl i'w hystyried. Drwy wneud hyn, gallwch ddod o hyd i'ch cartref perffaith mewn ardal nad oeddech yn ei hystyried o'r blaen neu sydd â'r nodweddion yr oeddech wedi'u blaenoriaethu ond efallai heb rywbeth a oedd yn llai pwysig i chi.



8. Rhannwch eich hysbyseb ar dudalen Facebook HomeSwapper yn - [www.facebook.com/HomeSwapperOfficial/](https://www.facebook.com/HomeSwapperOfficial/)



9. Cofiwch fewngofnodi i'ch cyfrif yn aml i wirio'r cyfleoedd cyfnewid posib ac i sicrhau bod eich cyfrif yn aros ar waith.



Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ac erthyglau manwl am sut i ddilyn y camau hyn yn [www.homeswapper.me/homeswapper-blog/](https://www.homeswapper.me/homeswapper-blog/)



# NID FAN HYN!

## Mae'n amser i BAWB yn Abertawe ailgylchu

Mae 80% o breswylwyr Abertawe yn ailgylchu. Nawr, mae'n amser i **BAWB** chwarae ei ran.



## Pam y mae angen i fi ailgylchu?

- Y gost i drethdalwyr Abertawe am anfon sachau du i safleoedd tirlenwi yw £3.5 miliwn y flwyddyn, ond gellid ailgylchu hanner y gwastraff hwn, a gwario'r arian a arbedir ar wasanaethau pwysig eraill yn lle.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gynghorau ailgylchu 70% o'u gwastraff cartref erbyn 2025. Os yw'r cyngor yn methu cyrraedd y targed hwn, gallai gael ei ddirwyo'n drwm.
- Mae ailgylchu'ch gwastraff yn golygu na chaiff ei dirlenwi, mae'n arbed adnoddau ac ynni ac yn helpu i warchod yr amgylchedd.
- **Yn olaf... Bydd aelwydydd sy'n parhau i roi eitemau ailgylchadwy mewn sachau du ac sy'n anwybyddu ein cefnogaeth i ailgylchu'n derbyn hysbysiad o gosb benodol o £100.**

Ni ddylid rhoi'r eitemau canlynol mewn sachau du; dylid eu hailgylchu fel a ddangosir yn ein canllawiau gyferbyn.



- Papur a cherdyn
- Cardbord
- Caniau a thuniau
- Gwastraff Bwyd

- Poteli a jariau gwyrdr
- Poteli a chloriau plastig
- Potiau, tybiau a hambyrddau plastig
- Gwastraff Gardd

Am ragor o wybodaeth, ewch i

[www.abertawe.gov.uk/nidfanhyn](http://www.abertawe.gov.uk/nidfanhyn)

### Contact Us:

 @AilgylchuTawe     Ailgylchu dros Abertawe  
 [www.abertawe.gov.uk/ailgylchu](http://www.abertawe.gov.uk/ailgylchu)  
 [evh@abertawe.gov.uk](mailto:evh@abertawe.gov.uk)     01792 635600

 Abertawe yn ailgylchu  
Swansea recycles

 Cyngor **Abertawe**  
**Swansea** Council

# Casgliadau Ailgylchu a Sachau Du Ymyl y Ffordd

## Wythnos Werdd



Papur a chardfwrdd gyda'i gilydd

## Sachau ar wahân



Metel, gwydr a ffoil gyda'i gilydd



Gwastraff gardd

## Wythnos Binc



Poteli, potiau, tybiau a hambyrddau plastig



Gwastraff na ellir ei ailgylchu'n unig

## Bob Wythnos



Gwastraff bwyd

## Canolfan Ailgylchu



Derbynnir ym mhob canolfan ailgylchu



I ddod o hyd i'ch diwrnod casglu ac i lawrlwytho calendr casglu ewch i [www.abertawe.gov.uk/chwilioailgylchu](http://www.abertawe.gov.uk/chwilioailgylchu) neu gofynnwch mewn llyfrgell neu swyddfa dai lleol.



Rhowch y sachau a'r biniau allan **ar ôl** 7pm y noson cyn y diwrnod casglu a **chyn** 7am ar fore'r casgliad.



Gallwch gael mwy o sachau ailgylchu a biniau bwyd o lyfrgelloedd a swyddfeydd tai. Am restr lawn o leoliadau, ewch i [www.abertawe.gov.uk/mwyosachau](http://www.abertawe.gov.uk/mwyosachau)



**Nid fan hyn!** Mae sachau du ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu'n unig. Ailgylchwch yn y bagiau a'r biniau eraill a ddarperir er mwyn eu cadw allan o safleoedd tirlenwi.



Os oes **sticer ar eich sach** ac nid yw wedi'i chasglu, rydych wedi gwneud camgymeriad. Symudwch y sach o ymyl y ffordd a'i storio/didoli ar gyfer y casgliad nesaf neu gallech dderbyn hysbysiad o dâl cosb.



Gall llawer o eitemau eraill gael eu hailgylchu mewn Canolfannau Ailgylchu. Am restr lawn o leoliadau ac eitemau a dderbynnir, ewch i [www.abertawe.gov.uk/canolfannauailgylchu](http://www.abertawe.gov.uk/canolfannauailgylchu)



Mae'r cyngor yn cynnig gwasanaeth casglu y telir amdano ar gyfer '**gwastraff swmpus**' megis dodrefn. Cysylltwch â ni trwy'r manylion isod i drefnu casgliad.

# TREFNU'CH YMWELIAD

## â Chanolfan Ailgylchu Llansamlet



Os ydych chi am ymweld â Chanolfan Ailgylchu Llansamlet bydd angen i chi drefnu hyn ymlaen llaw yn awr cyn teithio yno.



Mae'r mesur newydd hwn yn cael ei gyflwyno i reoli lefelau traffig ar ein safle prysuraf ac i sicrhau y gall staff a phreswylwyr gadw pellter cymdeithasol.



Gallwch gadw lle ar-lein, a bydd angen dangos copi o'r e-bost cadarnhau a phrawf eich bod yn breswilydd yn Abertawe i gael mynediad ar ddiwrnod eich ymweliad.



Bydd canolfannau ailgylchu eraill yn parhau i weithredu fel arfer, am y tro. Cadwch lygad ar ein gwe-dudalennau i gael y newyddion diweddaraf.



I gael rhagor o wybodaeth am y mesurau newydd ac i drefnu'ch ymweliad, ewch i:

[www.abertawe.gov.uk/CAGClansamlet](http://www.abertawe.gov.uk/CAGClansamlet)

✉ [evh@abertawe.gov.uk](mailto:evh@abertawe.gov.uk)

☎ 01792 635600

Abertawe yn ailgylchu  
Swansea recycles

 Cyngor **Abertawe**  
**Swansea** Council

## Allwn ni eich helpu?

Ydych chi'n cael trafferth darllen print mân neu efallai eich bod yn teimlo eich bod yn bodd i dan swm yr wybodaeth rydych yn ei gweld ar lythyrau, taflenni a ffurflenni cais?

Os felly, gallwn ddarparu gwybodaeth i chi mewn ffyrdd eraill. Gallwn anfon gwybodaeth atoch mewn print bras, Braille neu ar gryno ddisg neu dâp. Os ydych yn siaradwr Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, gallwn hefyd ddarparu gwybodaeth i chi yn Gymraeg.

I dderbyn gwybodaeth mewn fformat arall, rhowch wybod i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol neu cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy ffonio ☎ **01792 635045** neu e-bostio ✉ [tai@abertawe.gov.uk](mailto:tai@abertawe.gov.uk)

Os oes angen help arnoch i lenwi ffurflen rydym wedi'i rhoi i chi, gofynnwch i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol am gymorth.

Mae'n bwysig i ni eich bod yn gallu cael mynediad at yr holl wasanaethau sydd ar gael i chi gan y Gwasanaeth Tai; felly os hoffech i ni wneud pethau'n wahanol i chi, gofynnwch a byddwn yn hapus i wneud hynny.